# Adroddiad Cryno

## Adolygiad o'r Fframwaith Prentisiaeth Bwyd a Diod yng Nghymru

## Cynnwys


Cynnwys ... 2
Cyflwyniad ... 3
Gweithgarwch a gomisiynwyd ... 3
Grŵp Llywio’r Adolygiad ... 3
Diben ac Agenda’r cyfarfod ... 4
Adborth ar y Fframwaith ... 4
1 Gofynion mynediad ... 4
2 Gofynion Sgiliau Hanfodol ... 6
3. Cyfredoldeb cymwysterau ... 6
Trafodaethau am y Potensial yn y Dyfodol ar gyfer y fframwaith ... 7
Casgliad ac argymhellion ... 8
Camau nesaf ... 8
Atodiad 1 ... 9

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o "Adolygiad Llai Manwl" FDQ o'r Fframwaith Prentisiaeth Bwyd a Diod [Bwyd a Diod | Prentisiaethau]

Sefydliad Dyfarnu elusennol yw FDQ, a sefydlwyd yn 2001 ac sy'n arbenigo mewn darparu cymwysterau ar gyfer diwydiant bwyd a diod y DU.

Rydym wedi cael ein cymeradwyo ac yn cael ein rheoleiddio yng Nghymru i ddylunio, datblygu, ardystio a sicrhau ansawdd y cymwysterau yn rhaglen brentisiaethau Bwyd a Diod Cymru. Rydym yn ymfalchïo mewn bod yr unig Sefydliad Dyfarnu sy'n cynnig y gyfres hon o gymwysterau yng Nghymru. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru, ac yn cydweithio'n agos gyda rhwydwaith cymeradwy o ddarparwyr hyfforddiant a cholegau, Rheoleiddwyr a rhanddeiliaid yn y sector Bwyd a Diod.

Fe gomisiynwyd yr adolygiad gan Medr ym mis Mehefin 2026. Gwahoddwyd FDQ i gynnal adolygiad byr fel yr unig Sefydliad Dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau sy'n tanategu llwybrau'r fframwaith.

Er bod Medr yn gallu comisiynu adolygiadau llawn, canolradd neu lai manwl o fframweithiau, dewiswyd yr adolygiad llai manwl ar yr adeg hon o ystyried y canlynol mewn perthynas â'r fframwaith

- mai dim ond ers 2 flynedd y mae'n bodoli ac nad yw wedi cael amser eto i gael ei wreiddio'n llawn gan ddarparwyr yng Nghymru.
- bod rhai newidiadau wedi cael eu gwneud yn barod, wrth i lwybrau newydd gael eu hychwanegu ar gyfer Lefel 3 Cynnal a Chadw Peirianneg Bwyd a Diod (2025) a Lefel 4 Bragu a Gweithrediadau Bragdai (2026). Mae Medr ac FDQ yn cwrdd yn rheolaidd i adnabod unrhyw newidiadau eraill i ategu fframwaith y sector.
- y bydd yn cael adolygiad llawnach, yn rhannol o ganlyniad i newidiadau polisi (y cafodd rhai eu hysgogi gan yr etholiadau diweddar), yn 2026/27. Mae newidiadau i bolisïau gan Medr a Llywodraeth Cymru sydd wrthi'n cael eu hadolygu'n debygol o gael effaith ar y fframwaith e.e. deddfwriaeth newydd ar gyfer prentisiaethau, adolygiad o werthoedd credydau ar gyfer pob fframwaith, adolygiad o Sgiliau Hanfodol Cymru, newidiadau posibl i bolisi cyllido a chontractau ar gyfer darparwyr.

## Gweithgarwch a gomisiynwyd

Fe gytunodd Medr ac FDQ y byddai FDQ yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer adolygiad byr a llai manwl, yn cadeirio grŵp yr adolygiad ac yn drafftio adroddiad a, phe bai angen, dogfen fframwaith ddiwygiedig ar gyfer Medr.

# Grŵp Llywio'r Adolygiad

Fe sefydlodd FDQ Grŵp Llywio'r Adolygiad a gyfarfu ar-lein ar 16 Mehefin 2026.

Cadeiriwyd y Grŵp gan Terry Fennell (Prif Weithredwr FDQ) a'i gyd-gyflwynwyr oedd Helen King (Rheolwr Ansawdd a Chydymffurfio FDQ) a Vivienne Wilfred (Uwch Reolwr Datblygu Fframweithiau yn Medr).

## Diben ac Agenda'r cyfarfod

Fe gytunodd FDQ gyda Medr y dylai'r agenda ymdrin â'r canlynol

1. Ceisio adborth ar y fframwaith (a hynny'n canolbwyntio ar ofynion Mynediad, gofynion Sgiliau Hanfodol a chyfredoldeb y cymwysterau)
2. Trafodaethau am faint y sector bwyd a diod yng Nghymru ac adnabod rhesymau dros y cyfraddau defnydd a niferoedd prentisiaid is-na'r-disgwyl ar y rhaglen yng Nghymru.


Gweler Atodiad 1 am restr o randdeiliaid a wahoddwyd i'r cyfarfod a'r rhai a oedd yn bresennol.

Roedd ystod o ddarparwyr a rhanddeiliaid yn bresennol gan gynnwys yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod (NSAFD) ac FDF Cymru. Darparodd FDQ gyfleoedd i randdeiliaid eraill a'r rhai nad oeddent yn gallu ymuno ar 16 Mehefin ddarparu adborth.

# Adborth ar y Fframwaith

Fe wnaeth yr adolygiad llai manwl fwrw golwg ar dri mater allweddol fel a ofynnwyd gan Medr.

## 1 Gofynion mynediad





Mae'r gofynion mynediad ar gyfer yr holl lwybrau yr un fath ar hyn o bryd. Roedd sylwadau o'r drafodaeth yn y cyfarfod yn cynnwys:

- Gellid cael gwared ar gyfeiriadau at gynnwys TGAU ac academaidd a Bagloriaeth Cymru gan nad ydynt yn cyd-fynd â dibenion fframwaith prentisiaeth galwedigaethol. Ar y gorau mae hyn yn ddryslyd ac ar y gwaethaf fe allai'r datganiad atal dysgwyr rhag ymgeisio am brentisiaeth os ydynt yn meddwl bod arnynt angen cymwysterau TGAU neu Fagloriaeth Cymru.
- Mae'r datganiad mor generig fel ei fod bron yn ddiystyr a gellid ei ddiwygio i fod yn berthnasol i bob llwybr.
- Nid yw'n annog dysgwyr i gamu ymlaen o lwybrau Lefel dau i lefelau uwch neu lwybr arwain tîm, sy'n rhywbeth y mae llawer o ddysgwyr yn ei wneud.

- Nododd FDQ mai cyllid sy'n penderfynu sut y mae/a yw dysgwyr yn gallu cwblhau ail raglen (e.e. camu ymlaen o bwnc Lefel 2 i Arwain Tîm Lefel 2 neu i 3). Byddai eglurder ar gyfer y dyfodol yn cael ei groesawu.

## 2 Gofynion Sgiliau Hanfodol





Eto, fe nodwyd fod gofynion Sgiliau Hanfodol yn generig yn hytrach na fesul llwybr. Fe drafododd y grŵp hefyd

- A yw Sgiliau Hanfodol Llythrennedd Digidol Lefel 2 yn ofynnol ar gyfer y llwybr Bragu Lefel 4. (DS Nid yw wedi'i restru ar wefan Medr.)
- Tynnu Sgiliau Hanfodol allan o'r fframwaith yn gyfan gwbl gan bod rhai cynrychiolwyr yn teimlo bod yr asesiadau Sgiliau Hanfodol cyfredol yn rhwystr i fynediad a chyfraddau llwyddo ar gyfer prentisiaid. Yn lle hynny, fe awgrymon nhw fod Sgiliau Hanfodol yn cael eu hintegreiddio fel rhan o asesiadau pwnc llwybr-benodol e.e. Pobyddiaeth neu Gynnal a Chadw Peirianneg Bwyd a Diod (FDEM).
- Mynediad ar gyfer dysgwyr ESOL sy'n ei chael hi'n anodd cwblhau'r Sgiliau Hanfodol ond sydd â sgiliau sector bwyd da.
- Nododd staff Medr eu bod yn cynnal peilot (yn y sector Adeiladu) i bennu'r dull ar gyfer Sgiliau Hanfodol mewn fframweithiau yn y dyfodol. Bydd canlyniad y peilot yn cael ei ystyried ac fe allai oleuo polisi ar gyfer gofynion fframweithiau yn y dyfodol. Nes bod y peilot yn cael ei adolygu, bydd Medr yn cadw Sgiliau Hanfodol yn y fframwaith Bwyd a Diod.

## 3. Cyfredoldeb cymwysterau

Fe wnaeth Grŵp yr Adolygiad fwrw golwg ar sleidiau cryno (gweler yr enghraifft ar gyfer Cigyddiaeth) ar gyfer yr holl lwybrau ac fe'u cyfeiriwyd at fanylebau manwl cymwysterau.




Gofynnodd FDQ am adborth yn y cyfarfod ac fe hysbysodd sut i ddarparu rhagor o sylwadau wedi hynny. Ar y cyfan roedd y Grŵp yn cytuno


- bod teitlau'r cymwysterau'n glir ac yn cyd-fynd â'r llwybrau

- bod cymwysterau'r llwybrau'n gyfredol gan eu bod wedi cael eu cyflwyno yn y 4 blynedd ddiwethaf (neu lai).
- bod yr ystod o lwybrau a chymwysterau'n cynnig opsiynau ar gyfer y rhan fwyaf o rolau yn y sector
- bod y model cymhwyster Hyfedredd yn addas iawn i asesu'r cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer y gweithle

Rhagor o adborth a gofnodwyd yn y cyfarfod:

- Mewn perthynas â Lefel 2 Pobyddiaeth a Lefel 3 Cigyddiaeth a Phrosesu Cig fe nododd un darparwr bryderon bod y Rheolau Cyfuno (RoC) ar gyfer y ddau gymhwyster hyn yn profi'n anodd i'w cyflawni gan bod eu gwerthoedd credydau'n uchel iawn. Dywedodd FDQ fod y Rheolau Cyfuno wedi cael eu pennu gan grwpiau datblygu'r Sector a oedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru pan grëwyd y fframwaith. Fe gytunodd FDQ i wirio'r opsiynau ar gyfer newid hyn i wneud y Rheolau Cyfuno'n fwy hyblyg a pha un a allai hyn fod o fewn y cwmpas ar gyfer yr adolygiad llai manwl hwn neu adolygiad yn y dyfodol.
- Lefel 3 Peiriannydd Cynnal a Chadw Bwyd a Diod – dywedodd darparwr sy'n defnyddio'r llwybr hwn ei fod yn gynnyrch cryf iawn, addas iawn ar gyfer y diben, perthnasol a chyfredol ar gyfer anghenion y sector. Mae'r flwyddyn ddarparu gyntaf wedi bod yn llwyddiant ac roedd angen rhagor o amser arno i ymwreiddio ymhellach – heb newid.

## Trafodaethau am y Potensial yn y Dyfodol ar gyfer y fframwaith




Fe wnaeth FDQ a Medr gytuno hefyd i drafod cyfraddau defnydd y fframwaith hwn yn y cyfarfod. Defnyddiwyd y diagram uchod i enghreifftio'r cyfraddau defnydd is-na'r-disgwyl ar draws llwybrau.

Mae Medr ac FDQ yn pryderu, er gwaethaf diddordeb cychwynnol gan ddarparwyr a chyflogwyr, bod nifer y prentisiaid gwirioneddol sy'n cofrestru ac yn cwblhau yn dal i fod yn isel, er gwaethaf ymgodiadau diweddar mewn cyllid a bod Bwyd a Diod yn Sector â Blaenoriaeth yng Nghymru.

Mae nifer y canolfannau prentisiaeth a gyllidir yng Nghymru'n gymharol isel o'i gymharu â sectorau eraill. Awgrymodd un rhanddeiliad y gallai dewis ehangach o ddarparwyr ar draws gwahanol leoliadau annog mwy o gyflogwyr a dysgwyr i ddefnyddio'r fframwaith. Nododd y rhanddeiliad hefyd y gallai lluosogrwydd mentrau sy'n gysylltiedig â sgiliau beri dryswch neu dynnu oddi ar brentisiaethau os yw eu diben yn aneglur.

DS Hysbysodd Medr y bydd y model cyllido prentisiaethau'n cael ei adolygu'n hwyrach yn 2026.

## Casgliad ac argymhellion

1. Nid yw'r adolygiad "llai manwl" byr wedi adnabod unrhyw faterion na phroblemau mawr gyda'r Fframwaith Bwyd a Diod sy'n cyfiawnhau newid cyn yr adolygiad ehangach yn 2026/27. Yn lle hynny, roedd adborth yn awgrymu bod ar y fframwaith angen cyfnod hwy o sefydlogrwydd i gael ei wreiddio yn y sector.

2. O ystyried yr etholiadau diweddar a newidiadau diweddar yn Llywodraeth Cymru, mae adolygiadau pellach a allai effeithio ar brentisiaethau, cymwysterau a chyllid yng Nghymru wrthi'n mynd rhagddynt. Mae FDQ yn argymell bod newidiadau i gymwysterau'r llwybrau'n cael eu gwneud pan fydd cyfle ar adeg yr adolygiad nesaf.

## Camau nesaf

1. Bydd FDQ a Medr yn adolygu'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid ac yn cyhoeddi adroddiad ym mis Gorffennaf 2026.
2. Bydd FDQ a Medr yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ac ar draws y sector i gynyddu ymwybyddiaeth o'r fframwaith ac annog mwy o ddefnydd a chyfleoedd ar gyfer camu ymlaen.

3. Bydd Medr yn nodi llinell amser ar gyfer adolygu'r fframwaith a pholisïau perthnasol yn y dyfodol.

4. Mae FDQ yn gwahodd cynrychiolwyr i gysylltu â ni gydag unrhyw adborth pellach ar ôl yr adolygiad ynghylch sut y gallwn gynorthwyo'r sector i gynyddu cyfleoedd ar gyfer ei brentisiaid. Helen.king@fdq.org.uk

Diwedd

Anfonwch e-bost i Helen.king@fdq.org.uk gydag unrhyw adborth sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## Atodiad 1

Cynrychiolwyr a wahoddwyd i'r Cyfarfod ar 16 Mehefin.

Fe gysylltwyd eto â'r rhai nad oeddent yn bresennol trwy anfon e-bost atynt, gan ddarparu'r cyflwyniad PowerPoint o'r digwyddiad a gofyn iddynt ddarparu adborth ar gyfer FDQ.

| Enw | Sefydliad | Yn bresennol ar 16/6/26 |
|---|---|---|
| Terry Fennell | FDQ | Oedd |
| Helen King | FDQ | Oedd |
| Vivienne Wilfred | Medr | Oedd |
| Gayle Powell | Medr | Oedd |
| Amy Crooks | NSAFD | Oedd |
| Angela Bradford | Wholebake | Oedd |
| David Harries | FDF Cymru | Oedd |
| Arwyn Williams | Coleg Sir Benfro | Oedd |
| Kate Rees | Mentera | Oedd |
| Kate Muddiman | Coleg Cambria | Oedd |
| Yvonne Evans | Coleg Cambria | Oedd |
| Lou Hall | Grŵp Llandrillo Menai | Oedd |
| Edgar Evans | Grŵp Llandrillo Menai | Oedd |
| Cath Skipp | Grŵp Llandrillo Menai | Oedd |
| Huw Rees | Busnes Cymru | Nac oedd |
| Mark Grant | Levercliffe | Nac oedd |
| Gary Rowland | Dunbia | Nac oedd |
| Ciam Short | Kepak | Nac oedd |
| Jane Sadler | Puffin Produce | Nac oedd |
| Betina Skovbro | Danish Bakery | Nac oedd |
| Mark Hughes | Hyfforddiant Cambrian | Nac oedd |
| Becky Dickinson | Morrisons | Nac oedd |
| Katherine Salisbury | What's Cooking Group | Nac oedd |
| Gregory Gouri Shankar | 2 Sisters Food Group | Nac oedd |
| | | |